



ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2019 – 2020)

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Henblas sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).

We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Henblas in accordance with School Governors Annual Report Regulations (Wales).

Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny ar bapur i'r ysgol erbyn 28/5/2021. Fel arall, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am lwyddiannau'r ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad.

We do not intend to hold a specific meeting to discuss this report unless a significant number of parents ask for a meeting. If you feel you would like to attend such a meeting could you please make a written request to the school by 28/5/2021. Otherwise we hope that you will enjoy reading about our school's successful year. You are welcome to get in touch with the chair of the governors or the headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2019-20)

Dyddiadau Tymor 2019-2020

Tymor	Tymor yn dechrau	Gwyliau Hanner Tymor yn dechrau	Gwyliau Hanner Tymor yn Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	Dydd Llun Medi 2il 2019	Dydd Llun 28ain o Hydref 2019	Dydd Gwener 1af o Dachwedd 2019	Dydd Gwener 20ain o Ragfyr 2019
Gwanwyn	Dydd Llun 6fed o Ionawr 2020	Dydd Llun 17eg o Chwefror 2020	Dydd Gwener 21ain o Chwefror 2020	Dydd Gwener 3ydd o Ebrill 2020
Haf	Dydd Llun 20ed o Ebrill 2020	Dydd Llun 25 ain o Fai 2020	Dydd Gwener 29ain o Fai 2020	Dydd Gwener 17eg o Orffennaf 2020

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (dim ysgol i'r plant)

Dydd Llun Medi 2il 2019

Dydd Mawrth Medi 3ydd 2019

Dydd Llun Tachwedd 4ydd 2019

Dydd Llun Mehefin 1af 2020

CYNNWYS

- | | |
|---|------------|
| 1. Neges gan y Cadeirydd | Tudalen 4 |
| 2. Gwybodaeth am yr ysgol a'r Corff Llywodraethu | Tudalen 5 |
| 3. Cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn | Tudalen 8 |
| 4. Cyfraniadau i Elusennau | Tudalen 13 |
| 5. Datblygiadau Cwricwlaidd/Gweithgareddau Amrywiol | Tudalen 14 |
| 6. Presenoldeb ac Absenoldeb | Tudalen 19 |
| 7. Crynodeb o'r adroddiad ariannol | Tudalen 20 |

1. Neges gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Henblas 2019-2020 i chi ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trosolwg o brif weithgareddau a chyflawniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Heb oes mae wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb yng nghyddestun y pandemic COVID-19. Mae cyfnod estynedig o weithio o adref rhwng Mawrth 23ain a Gorffennaf 13eg wedi golygu cyfnod anodd i'r plant, y rhieni, y staff a'r corff llywodraethol gan ofyn bod angen addasu trefniadau yn gyson. Mae'r ysgol wedi aros ar agor fel canolfan ofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r gofal a roddwyd gan y staff wedi bod yn arbennig. Diolch hefyd am y cydweithio agos dalgyloch arweiniodd at adleoli'r hwb gofal am gyfnod yn Ysgol Corn Hir, Llangefni.

Fel ysgol mae Ysgol Henblas yn parhau i ddangos cynnydd ym mhob maes. Yn ystod y flwyddyn academaidd heriol ddiwethaf, o dan arweinaid Mr Jones, y Pennaeth ac aelodau o staff hynod ymroddgar, mae'r ysgol wedi parhau i ffynnu a chyrraedd y safonau uchel a osodwyd.

Bu llwyddiannau pellach yn ystod 2019-20 mewn nifer o feysydd gwahanol, (academaidd, cymdeithasol, chwaraeon ac ati) a rhoddir blas i chi o'r llwyddiannau hyn yng ngweddill yr adroddiad yma. Mae'r llywodraethwyr yn ymhyfrydu yn y llwyddiannau hyn ac yn llongyfarch pawb oedd ynghlwm â'r ysgol wrth gyflawni blwyddyn arall wych. Rydym yn parhau felly i gynnal safonau uchel yr ysgol, a phleser arall oedd ymestyn croeso i'r plant meithrin â ymunodd â theulu'r ysgol ym mis Medi.

Rydym pob amser yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion, ac yn parhau i werthfawrogi pob aelod o staff, y rhai sydd yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu, am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth sicrhau bod y disgyblion yn profi amgylchedd dysgu rhagorol sydd hefyd yn hwyl ac yn bleserus.

Mae addysg yn ymdrech tîm rhwng rhieni, llywodraethwyr, athrawon a disgyblion ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth, ymglymiad a'ch brwdfrydedd tuag at fywyd yr ysgol ac addysg eich plant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ac yn diolch i aelodau'r Cymdeithas Rhieni Athrawon am eu hymrwymiad, a'u hymdrechion diflino wrth gefnogi cymuned yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Mae llwyddiant yr ysgol o ganlyniad i'r gwaith tîm gwych sydd yn digwydd rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r flwyddyn academaidd newydd yn dod â heriau a gofynion newydd, (er enghraifft y gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd), ond gydag eich cefnogaeth barhaus fe fyddwn yn sicrhau fod Ysgol Henblas yn rhoi'r addysg orau bosibl i'n disgyblion.

Byddwn yn parhau felly i sicrhau fod pob disgybl yma yn cael "gwreiddiau i dyfu, adennydd i hedfan".

Yn gywir
Rhys Parry
Cadeirydd y Llywodraethwyr

2. GWYBODAETH AM YR YSGOL 2019-2020

Cadeirydd Y Corff Llywodraethu	Mr Rhys Parry Ysgol Henblas Llangristiolus Bodorgan LL62 5DR
Is Gadeirydd	Mrs Eleri Stephen
Pennaeth	Mr Huw Jones
Clerc i'r Corff Llywodraethu	Mrs Rhian Khardani

Llywodraethwyr – Rhieni

Mrs Eleri Stephen
Mr Paul Roberts
Dr. Nia Allen

Llywodraethwyr – Cyfethol aelod cymunedol

Mr Stephen Keen
Mrs Natalie Owen

Llywodraethwyr - Staff

Mrs Manon Roberts

Llywodraethwyr – Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol

Cyng Dafydd Roberts
Mr Rhys Parry

Llywodraethwyr – Cyngor Cymuned

Andrew Hughes

STAFFIO MEDI 2019

Meithrin/Derbyn: Mrs Kelly Owen/Anti Diane

Blwyddyn 1 a 2: Mrs Manon Roberts (Mrs Clare Owen yn ystod cyfnod mamolaeth)

Blwyddyn 3 a 4: Mrs Heather Williams (Miss Bethan Owen yn ystod cyfnod mamolaeth)

Blwyddyn 5 a 6: Mr Huw Jones

Athrawes CPA: Mrs Sue Legge

Cydlynnydd ADY: Mrs Roberts/Mrs Legge

Cynorthwywyr / Ymyrraethau Dysgu: Mrs Diane Jones, Mrs Carol Jones, Mrs Nia Jones, Mrs Sharon Barton, Mrs

Emma Dryhurst, Mrs Glenys Williams. Mrs Paula Harvey

Staff y gegin: Mrs Sian ac Mrs Aloma Jones

Gofalwr: Mr Barry Jones

Goruchwylwraig amser cinio: Ms Pat Williams

Hyfforddeion offerynnol: Ifan Dafydd, Elen Keen, Elin Roberts

Hyfforddiant staff 2019-2020:

Pwy?	Ble?	Pryd?	Beth?
Pob aelod staff dysgu	Ysgol y Graig Ysgol Corn Hir	3/9/19	Safonau proffeiysynol
ED	Swyddfa Penrallt	18/9/19	Cwrs TGCH Hwb a j2E
Pob aelod staff dysgu	Henblas	18/9/19	Epipen
HEJ/KO	Venue Cymru	20/9/19	Haen 3 Shirley Clarke
KO	Ysgol Cae Top	26/9/19	Asesu gwaelodlin
CJ	Swyddfa Penrallt	3/10/19	Cwrs byd bach – defnyddio ipad yn effeithiol
NJ	Meditec	2-4/10/19	Cymorth Cyntaf
KO/DE	Oriel Mon	15/10/19	Gwreiddio 12 egwyddor addysgegol
SL	MSparc	15/10/19	Addysg Rhyw
HW	Ysgol Santes Dwynwen	21/10/19	Creu blaenoriaeth addysgeg
KO/HEJ	Ysgol Corn Hir	22/10/19	Haen 2 Shirley Clarke
HEJ	Ramada Wrecsam	16/10/19	Penaethiaid newydd
KO	Gwesty Bae Treadrddur	25/10/19	Cynhadledd blynyddoedd cynnar
Pob aelod staff dysgu	Ysgol David Hughes	4/11/2019	Cyngor Gweithlu Addysgu

NIFEROEDD YM MHOB DOSBARTH MEDI 2019

Meithrin a Derbyn: 23

Blwyddyn 1 a 2: 19

Blwyddyn 3 a 4: 32

Blwyddyn 5 a 6: 24

Cyfanswm y disgyblion = 98**Cefndir ieithyddol y plant – Tachwedd 2019:**

Oedran	Sy'n siarad Cymraeg gartref	Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg	Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl	Na allant siarad Cymraeg o gwbl
10 - 11 oed	10	1	0	0
9 - 10 oed	9	2	2	0
8 - 9 oed	16	3	0	1
7 - 8 oed	11	0	0	1
6 - 7 oed	8	0	2	0

5 - 6 oed	7	0	2	0
4 - 5 oed	12	2	2	1
3 - 4 oed	1	0	5	0
Cyfanswm	74	8	13	3

laith y cartref:

Mae 76% yn siarad Cymraeg yn y cartref, 8% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ond o gartrefi lle nad Cymraeg yw'r iaith, 13% yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl a 3% yn siarad dim Cymraeg ar hyn o bryd. Mae SL yn cydlynu ein gwaith gyda'r Siarter Iaith.

3.Cyfarfodydd y corff 2019-20:

Medi 20 2018:

Ethol Swyddogion am y flwyddyn academaidd 2019/20
Penderfynu ar Aelodaeth y Paneli
Cadarnhau Cylch Gorchwyl Paneli
Buddiannau
Hyfforddiant i Lywodraethwyr
Taflen Cofrestru Troseddau (DBS)
Cadarnhau a mabwysiadu Côt Ymddygiad i'r Llywodraethwyr

Tachwedd 14, 2019:

<p>1. Cyngor Ysgol - arddangos eu gwaith Croesawyd aelodau'r Cyngor Ysgol i'r cyfarfod i ddangos a thrafod eu gwaith efo'r llywodraethwyr. Diolchwyd iddynt am gyflwyniadau clir ac eglur o'r hyn maent yn ei wneud yn yr ysgol.</p>
<p>2. Cofnodion cyfarfod blaenorol 10/9/19 a materion yn codi Cafwyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Materion yn codi: Adolygwyd aelodaeth yr is-baneli ar gyfer 2019/20 (copi ynghlwm)</p>
<p>3. Adroddiad y Pennaeth Cafwyd trosolwg gan y pennaeth o'r adroddiad a anfonwyd allan rhagblaen i'r llywodraethwyr. Y prif faterion a drafodwyd oedd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhagolygon mynediad 2020+ gan nodi mai braslun yn unig yw'r argymhelliad niferoedd• Nodwyd bydd BI 4+5 (Medi 2020) yn 33 a bydd rhaid edrych ar hyn• Trosolwg o'r drefn staffio 2019/20• Targed salwch eleni yw 96.2%: rhwng 4 Medi a Hydref roedd yn 98%• Trosolwg o'r hyfforddiant mae'r staff wedi fynychu a sut bydd hyn yn cael ei weithredu yn yr ysgol yn ddyddiol <p>Cafwyd trafodaeth ar y cynnwys a diolchwyd i HEJ am adroddiad cynhwysfawr.</p>
<p>4. Iechyd a Diogelwch: adroddiad panel adeiladu Gorffennaf 2019 Nodwyd fod awdit lechyd a Diogelwch wedi ei gario allan gan AH/ES 9/7/19 a cafwyd trosolwg o'r cynnwys: "Lockdown": cytunwyd fod angen cael "drill" a chynllun yn ei le ar gyfer digwyddiad tu allan i'r ysgol a cafwyd trafodaeth ar y gwahanol bethau y gellid eu gwneud. Cadarhaodd HEJ fod yr ysgol wedi cael caniatad i ddefnyddio Neudd yr Henod pe bai argyfwng yn digwydd yn ogystal.</p>
<p>5. Lles: adroddiad diogelu blynyddol Cafwyd trosolwg gan ES a nododd ei bod wedi cyfarfod efo HEJ i drafod diogelwch plant. Nodwyd fod polisi yn weithredol yn yr ysgol.</p>
<p>6. Adroddiad blynyddol i rieni Egurwyd fod angen danfon Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr allan i rieni. MWO i wirio efo Llywodraethwyr Cymru beth yn union yw'r drefn a beth sydd angen ei gynnwys yn yr adroddiad.</p>
<p>7. Diweddariad CDY Cafwyd trosolwg o flaenoriaethau 2019/20 a nodwyd mai "Codi safonau llythrennedd Saesneg" yw'r prif un. Cytunodd y pennaeth i'w rhoi fyny ar safle diogel llywodraethwyr.</p>
<p>8. Aelodaeth y corff: cyfethol aelod Cymunedol Nodwyd fod sedd wag ar gyfer aelod Cymunedol ar y corff. Cafwyd trafodaeth a cyfetholwyd Mrs Natalie Owen i'r sedd.</p>
<p>9. Aseidiadau diwedd cyfnod allweddol Cafwyd trosolwg o'r aseidiadau diwedd cyfnod allweddol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y safonau'n uchel iawn.</p>
<p>10. Polisiau : Cwricwlwm; Digwyddiadau Difrifol Eglurwyd fod trefn newydd gan Adran Addysg Môn o rannu polisiau ers Medi 2019. Bellach bydd pob ysgol yn mabwysiadu'r un polisiau ar yr un pryd. Cytunodd y corff i fabwysiadu'r drefn yma ac i gael trafodaeth ym mhob cyfarfod ar bolisiau.</p> <p>Yn y cyfarfod yma trafodwyd y polisiau Cwricwlwm a Digwyddiadau Difrifol a cytunwyd i'w mabwysiadu.</p>

11. Panel Cyllid

Cafwyd trosolwg o'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod diweddar o'r Is-banel cyllid. Eglurwyd fod costau llanw wedi bod yn uchel ond wedi cael ei ddatrys erbyn hyn. Nodwyd fod popeth arall yn edrych yn iawn ac yn dderbynniol.

12. Presenoldeb staff a disgyblion

Cafwyd trosolwg o sefyllfa'r tymor hwn.
Disgyblion ar 98% sydd yn dda iawn.

13. Unrhyw fater arall

Llywodraethwyr Cymru: Eglurwyd fod yr ysgol yn tanysgrifio i Lywodraethwyr Cymru ac eglurwyd fod gan pob llywodraethwyr fynediad i'w safle gwe. Rhoddwyd manylion cyfrinair i'r llywodraethwyr.

Rheoli perfformiad y Pennaeth: Cytunnodd ES/RhP i'w gynnal ynghyd a swyddog GwE

Teithiau Dysgu (Llywodraethwyr): Cafwyd trosolwg o'r drefn teithiau dysgu i lywodraethwyr gan edrych ar y ffordd orau ymlaen. Cytunnodd pawb eu bod yn awyddus i'w gwneud ond cafwyd cais am ddigon o rybudd.

Chwefror 12:

1. Croesawyd NO i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn cael ei hethol yn lywodraethwr cymunedol. Dymunwyd gwellhad buan i RhK.

Cydymdeimlwyd gyda EC yn dilyn ei phrofedigaeth diweddar

2. Cofnodion cyfarfod blaenorol 14/11/19 a materion yn codi
Cafwyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Materion yn codi:

Adroddodd HJ ar aelodaeth y paneli cyfredol a cytunnodd i anfon copi papur i'r aelodau ynghyd â diweddarau'r manylion ar safwe'r ysgol

Prawf argyfwng llwyddiannus wedi ei gynnal.

Cafwyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Diweddariad CGY

Blaenoriaethau: cafwyd trosolwg o'r meysydd a'r datblygiadau sydd wedi eu wneud ynddynt.
ADY: cafwyd trosolwg o'r drefn yn yr ysgol. Eglurwyd fod Mrs Legge wedi cynnal taith addysgu "gwahaniaethu" a cafwyd trosolwg o'r canfyddiadau.

Taith addysgu darllen
: trosolwg gan PR/NO.

Cafwyd trafodaeth ar adroddiad GJ yn dilyn arsylwi Tachwedd 2019 a nodwyd mai'r blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- ADY
- Meddylfryd o dwf
- Saesneg

4. Cyllid

Adran Gyllid wedi nodi fod gan yr ysgol £33k o arian wrth gefn hyd at 31/3/20. Tebygolrwydd bydd cyllideb 2020/21 yn creu gwarged (surplus) bach ond anhebygol bydd angen toriadau.

5. Staffio

Mrs Heather Williams dechrau cyfnod mamolaeth 14/2/20
Miss Bethan Owen yn cychwyn ar ôl hanner tymor

Plentyn newydd yn cychwyn Bl 1 & 2 ar ôl hanner tymor fydd angen cymhorthydd (hysbysebu ar y funud).

6. Adroddiad diweddar Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant

Cafwyd trosolwg o adroddiad diweddaraf GJ a nodwyd fod yr ysgol wedi cael ei chadw yn y categori melyn. Gofynnwyd y cwestiwn pam nad yw'r ysgol wedi symud categori i wyrdd? Cafwyd trafodaeth ar argymhellion yr adroddiad.

7. Hunanarfarnu

Cafwyd trosolwg o'r drefn hunanarfarnu gan roi sylw i'r 5 cwestiwn allweddol. Atgoffwyd y llywodraethwyr am y ddogfen "Canllawiau llywodraethwyr ar gyfer hunan arfarnu Ysgol Henblas" (yn safle diogel llywodraethwyr)

8. Holiadur Llywodraethwyr

Cafwyd cais i'r llywodraethwyr sydd heb ei gwblhau i wneud mor fuan á phosibl

9. Presenoldeb staff a disgyblion

Targed presenoldeb disgyblion yw 96.2% ar presenoldeb presennol yw 96.49%.

Staffio: dim problemau

Cytunodd pawb eu bod yn hapus efo'r ystadegau hyn.

10. Iechyd a Diogelwch

Eglurodd HJ ei fod wedi derbyn adroddiad iechyd a diogelwch gan CSYM a fod y panel adeiladu wedi edrych arno. Yn ogystal eglurodd fod trafodaethau wedi eu cynnal efo'r staff. Nodwyd y blaenoriaethau isod:

- Storfa i gadw pethau
- Parcio tu allan i'r ysgol
- Ffens

Nodwyd fod y broblem o faw ci ar gae'r ysgol a thu allan yn gwaethygu. Cytunwyd i'r Cyngor Ysgol drefnu ymgyrch i atal baw cwn ar gae'r ysgol a'r palmant.

Adroddiad tán: prawf PAT wedi ei gynnal 12/2/20.

Hyfforddiant legionella: HJ a BJ wedi ei dderbyn

Cyngor Ysgol i drefnu ymgyrch

11. Unrhyw fater arall

Caban tu allan i'r ysgol/cylch meithrin: eglurwyd fod yr ysgol ar y rhestr i dderbyn caban ond nodwyd bydd rhaid mynd trwy'r broses tendro i weld pwy fydd yn llwyddiannus i'w redeg. Cafwyd trosolwg o'r canllawiau. HJ a rhai o'r llywodraethwyr yn cyfarfod efo Bethan H Jones 20/2/20.

Clwb Gofal: ar y funud nid oes posibl cynnal clwb gofal yn yr ysgol. Nodwyd fod y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (HM/CR) wedi gwneud llawer o waith ymchwil i mewn i hyn a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

Trip panto Nadolig: cytunwyd i edrych mewn i weld os ydym am barhau gyda'r traddodiad yma (Cyngor Ysgol).

Cytunwyd yn unfrydol fod y Sioe Nadolig eleni yr orau eto a diolchwyd i staff yr ysgol am hyfforddi'r disgyblion.

Mai 14 2020

1. Adroddwyd ar y sefyllfa yng nghyd destun COVID19:

i) Sefyllfa gyfredol

ii) Canllawiau i staff

iii) Gwaith plant

Adroddiad y pennaeth:**Adroddwyd ar niferoedd dosbarthiadau Medi 2020:****HEJ yn dysgu 3 diwrnod yn y dosbarth**

Cafwyd sel bendith y panel cyllid ar gyllido a chyflogi aelod o staff i wneud 0.1 yn ychwanegol fel bod HEJ yn ddigyswllt am ddau ddiwrnod.

Amser digyswllt flwyddyn nesaf:

Sue Legge yn gwneud CPA athrawon ond yn ddigyswllt ei hun ar fore Mercher am hanner bore.

Symud i Ysgol Henblas:

Mae 1 disgybl wedi symud yma yn ddiweddar. Mae wedi trosglwyddo gyda phe cyn 20awr Cynllun Datblygu Unigol awdurdod. Penodwyd Ms Paula Harvey fel cymhorthydd i'w chynorthwyo ddechrau mis Mawrth ac fe ddechreuodd Ms Harvey gyda hi wythnos cyn y lockdown.

Dyma adborth y swyddog lles:

“Wedi bod yn y cartref heddiw, yn siarad hefo mam a MO.

Mae'r ddwy ohonynt yn hapus iawn hefo Ysgol Henblas, popeth yn bositif iawn hyd yma – MO isio mynd yna fory hefyd wir, ddim isio peidio mynd yn ystod y penwythnos!!

Wedi cael cymryd rhan yn y gweithgareddau hefo gweddill y dosbarth, a mam yn dweud ei bod wedi deallt ei bod yn dilyn rheolau dosbarth, felly'n hapus hefo hynny. Hi'n teimlo fod ysgol llai yn siwtio MO yn well.”

Staffio: Cytundeb Heather Williams

Rydym eisiau llongyfarch Mrs Heather Williams ar enedigaeth Ted Arthur. Bydd Mrs Williams yn dychwelyd ar Fehefin 1af. Gyda sel bendith y panel staffio penodwyd ar gytundeb hirdymor.

Ffarwelio gyda Miss Bethan Owen

Diolchwyd yn ddiffuant i Miss Bethan Owen. Dyma ei swydd cyntaf ar ol gadael y coleg ac mae wedi bod yn gyfnod hynod heriol iddi. Dydi hi ddim wedi cwyno na gwneud unrhyw lol – mae wedi parhau a'i dyletswyddau yn hollol broffesiynol gan barhau gyda'r dysgu o bell drwy blatfform google class.

Mrs Manon Roberts

Bydd Mrs Manon Roberts yn dychwelyd mis Medi ac mae hi a Mrs Owen eisoes wedi dechrau ar y cynllunio!

Cymorthyddion ADY:

Bydd 6 cymhorthydd 1:1 integreiddio ym mis Medi, un yn ychwanegol oherwydd fod ym mlwyddyn 2 yn cael pecyn 15 awr.

Clerc i'r corff llywodraethol:

Ar ddiwedd mis Mawrth daeth y newyddion trist i'n sylw fod Mrs Rhian Khardani wedi marw yn dilyn brwydr anodd â chancr. Rhian oedd clerc ein corff llywodraethol ers pedair blynedd. Roedd ganddi hiwmor iach ac fe fyddai ei chwerthiniad yn llenwi ein cyfarfodydd! Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddi, ac roedd yn bleser cydweithio efo hi. Roedd yn un dda am gadw trefn arnom ni gyd yn ein cyfarfodydd!

Roedd gan Rhian feddwl mawr o Ysgol Henblas. Byddai bob tro yn ymfalchio yn llwyddiant ein plant, ac yn cysylltu'n rheolaidd i'w llongyfarch. Yn ogystal, roedd ganddi gyswllt teuluol – yn fodryb i Efa Lois. Doedd ond ychydig wythnosau ers i Rhian gollu ei brawd.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'i gwr Ali, yn ogystal ag Elen, Michael ac Efa ar eu colled greulon. Efallai ein bod i gyd arwahan ar hyn o bryd ond rydym yn agos wrth yrru ein cofion cynhesaf at y teulu.

Braint oedd cael ei hadnabod.

Penodi clerc i'r corff llywodraethol:

Yn dilyn marwolaeth Rhian Khardani – mae swydd clerc y corff llywodraethol ar hyn o bryd yn wag. Bydd angen penodi clerc i'r swydd hon.

Gwefan yr ysgol: <http://ysgolhenblas.org/>

Edrychwch ar wefan yr ysgol – mae wedi cael ei ddiweddarau yn ystod y cyfnod hwn.

Newyddion diweddaraf: <http://ysgolhenblas.org/newyddion.html>

Diogelu – Encompass/My Concern:

Mae'r ysgolbellach yn defnyddio rhaglen MyConcern o ran cofnodi digwyddiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Cyllid:

Cafwyd adroddiad ar sefyllfa gyfredol gan gadeirydd y corff.

Iechyd a diogelwch:

Mabwysiadwyd polisi ymweliadau addysgol ac asesiad risg.

Mehfin 16, 2020:

1.

Ail-agor Ysgol Henblas (crynodeb o'r drafodaeth)

Aeth y Pennaeth trwy'r ddogfen oedd yn dangos opsiynau ail-agor, gan nodi mai Opsiwn 4 oedd yn cael ei argymhell, sef 1 sesiwn yr wythnos i bawb, a 2 sesiwn i flwyddyn 6. Nodwyd bydd holiadur i rieni yn mynd allan fory, a dangosodd y Pennaeth ei gynnwys i'r Llywodraethwyr

Atebodd y Pennaeth gwestiynau gan Lywodraethwyr, e.e. yn lle bod rhieni yn cofrestru (trwy ysgrifennu) eu plant pan yn cyrraedd yr ysgol, onid gwell fyddai i athro lenwi un taflen ar ran pawb? (Ac felly osgoi llawer yn "ysgrifennu".) Opsiwn arall fyddai system electroneg. HEJ i ystyried.

Rhannodd y Pennaeth y llythyr drafft i rieni, a nodwyd:

- Does dim bwriad checio gwres y disgyblion pan maent yn cyrraedd
- Mae dau undeb yn dadlau yn erbyn agor am y 4ydd wythnos (h.y. diwedd Gorffennaf)

Rhannodd y Pennaeth yr asesiad risg, a thrafodwyd ei gynnwys. Pwysleiswyd fod iechyd a lles (e.e. iechyd meddwl) pawb yr un mor bwysig â gwneud yn siwr nad oedd neb yn cael ei feirws. Nodwyd y bydd yr hen gadeiriau yn ystafell yr athrawon yn cael eu gwaredu, a bydd cadeiriau plastig yn cael eu rhoi y neu lle. Cytunwyd y dylai Llywodraethwyr roi unrhyw sylwadau pellach am yr asesiad risg yn uniongyrchol i'r Pennaeth.

2.

Unrhyw Fater Arall

- Ar gyfer mis Medi, mae cais gan 2 blentyn ychwanegol (derbyn a blwyddyn 3) wedi ein cyrraedd, ac o bosibl bydd cais arall. Gan fod lle yn nosbarthiadau yr oedrannau yma, cytunwyd y ceisidau yma.
- Nodwyd efallai y bydd 102 yn yr ysgol ym mis Medi.
- Diolchwyd i'r Pennaeth a'r holl dim am y cynllunio manwl cyn ail-agor, a diolchwyd hefyd iddynt am y tasgau a'r profiadau cyfoethog i ddisgyblion ar-lein ers mis Mawrth. Mae gwaith di-flino ac ymroddiad yr holl staff wedi bod yn wych.
- Bydd swydd y Clerc a swydd Cymhorthydd 15 awr yn cael eu hysbysebu yn fuan.

4. CYFRANIADAU AT ELUSENNAU

Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod hwyllog – y plant wedi gwisgo eu pyjamas, eraill wedi dod a chacennau er mwyn eu gwerthu, ac yna yn y prynhawn bu'r holl ysgol allan yn efelychu ymgyrch pawen lawen Al Hughes ar Radio Cymru. Diolch i bawb am fod mor hael ac am lwyddo i godi £95.45.

Diolchgarwch

Roedd yn hyfryd gweld neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch eleni. Diolch i bawb am gefnogi ac i'r holl blant am roi ymdrech mor dda wrth berfformio - o'r rhai ieuengaf yn y meithrin i'r hynaf ym mlwyddyn 6. Casglwyd £301 tuag at ein ffrindiau yn Hafan Henblas, Lesotho.

Save the Children

Codwyd £77.46 wrth i'r plant wisgo siwmperi Nadolig.

5. DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD/GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

Categori Ysgolion

Ym mis Ionawr 2020 lleolwyd Ysgol Henblas yn y categori melyn, gan adlewyrchu holl waith caled ac ymroddiad y disgyblion a'r staff.

Y Ffordd Ymlaen ar Gyfer 2019/2020

BLAENORIAETH 1 – datglygu medrau Saesneg y disgyblion

BLAENORIAETH 2 – ADY – diwygio gweithdrefnau i gydfynd a gofynion y ddeddf ADY newydd

BLAENORIAETH 3 – Addysgeg – datblygu medrau'r disgyblion i wneud penderfyniadau am eu dysgu

BLAENORIAETH 4 - Addasu darpariaeth yr ysgol er mwyn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru

Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)

Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y boc. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr i'w yfed ar gael ar gyfer y disgyblion trwy'r dydd.

Mae'r holl ddisgyblion yn parhau i redeg milltir o amgylch y trac/cae er mwyn cadw'n iach a heini ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio yn well yn y dosbarth.

Iechyd a ffitrwydd

Cogydd ysgol y flwyddyn:Llongyfarchiadau mawr Anti Sian ar ddod yn ail trwy Gymru yng nghystadleuaeth cogydd ysgol y flwyddyn. Rydym eisoes yn gwybod fod Anti Sian yn paratoi cinio ardderchog i'n plant ac fe gafodd gydnabyddiaeth haeddiannol am hynny.

Siop ffrwythau blwyddyn 3 a 4:Bu siop ffrwythau ar agor yn nosbarth blwyddyn 3 a 4 - yn hybu dealltwriaeth o drin arian.

Achub bywyd:Cafodd disgyblion yr adran iau sesiwn gwerthfawr iawn yng nghwmni Stephen o Ambiwllans St John's yn dysgu beth i'w wneud petai person ddim yn anadlu. Yn ogystal cafwyd gwybodaeth sut i ddefnyddio'r deffibriliwr sydd ar gael i drigolion y pentref pe cyfyd anghydfod.

NSPCC:Daeth Rhian draw i'r ysgol i siarad gyda'r holl ddisgyblion am sut y dylent ymateb pan fo heriau yn eu hwynebu. Cafwyd cyngor doeth iawn a'r plant yn ymateb yn aeddfed wrth drafod gyda Rhian.

Golchi dwylo:Bu Nyrs Mandy yn yr ysgol yn siarad am y dull cywir o olchi dwylo gan ddangos mor gyflym mae'r germau yn gallu ymledu. Diolch unwaith eto iddi am y cyngor doeth.

Diogelwch yn yr haul:Daeth Cerys o Tenovus i'r ysgol i roi cyngor i'r plant ar sut i gadw'n ddiogel yng ngwres yr haul – cyngor doeth o ystyried yr ha bach Mihangel a gafwyd. Eli haul, cap, diod a gorchuddio'r croen rhag gwres yr haul oedd y neges bwysig.

Addysg gorfforol:

Rygbi tag:Cafodd tîm rygbi bl3 a 4 a tîm bl 5 a 6 fore campus yng ngwyl rygbi tag Gwyl Ddewi. Llwyddodd y tîm bl 3 a 4 i guro pob gem ac fe gurodd tîm bl 5 a 6 bedair allan o 5 gem. Roedd yr hyfforddwr Mike Coyne yn hapus.

Rygbi cyfeillgar:Bu tîm rygbi Ysgol Henblas yn chwarae yn erbyn Ysgol Llanfairpwll. Diolch iddynt am ddod draw. Cafwyd pnawn da o gemau a thaclo brwd. Da iawn bawb a diolch i Michael Coyne am eu hyfforddi.

Gala nofio:Bu cryn dipyn o ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngala nofio'r Urdd. Daeth llawer o lwyddiannau i'w rhan a llongyfarchiadau i aelodau'r ras gyfnewid blwyddyn 3 a 4 ddaeth i'r brig sef Erin Quinn, Ela Edwards, Efa Lois ac Efa Torr. Yn ogystal aeth Erin yr holl ffordd i Gaerdydd i gystadlu yn unigol gan ddod yn bedwerydd a phumed drwy Gymru. Tipyn o gamp!

Llwyddiant peldroed:Mae wedi bod yn fis prysur i'n timau peldroed. Rydym wedi croesawu timau o Ysgolion Bodffordd, Llangoed a Rhoscolyn yma ac wedi cael gemau da. Aeth tri tim peldroed 5 bob ochr i gystadlu yn y gystadleuaeth i Ysgolion y dalgylch ac fe aeth dau dim drwodd i'r rownd gynderfynol ac un i'r ffeinal cyn colli

mewn gem agos. Yna aeth un tîm i Gaergybi lle daethant yn drydydd trwy'r gan guro pob gem yn y grwp a cholli i'r buddugwyr yn y rownd gynderfynol cyn curo'r gem trydydd safle. Diolch i Barry am eu hyfforddi eto. Llwyddiant gymnasteg: Llongyfarchiadau i'r grwp gymnasteg sef Ariana, Gwen, Erin, Ioan, Mari ac Ifan ddaeth yn seithfed allan o 15 trwy Gymru gyfan. Roedd eu perfformiad yn gaboledig ac fe lwyddont i berfformio i'r safon y buont yn ymarfer mor galed at ei gyrraedd. Diolch i Mair, Ruth a Mrs Owen am eu hyfforddi. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Cai – ddaeth yn bencampwr gymnasteg a sydd nawr yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn Y Bala ym mis Mawrth.

Wythnos Gwyl Dewi

Ar ddechrau Mawrth bu wythnos o ddathlu Gwyl Dewi Sant. Aeth plant y cyfnod sylfaen i ganu gyda'u cyfoedion o weddill y dalgylch yn Ysgol y Graig. Bu disgyblion yr adran iau yn gorymdeithio gyda'u ffrindiau o ysgolion y dalgylch yn Llangefni ac yna'n mwynhau brwydr y bandiau ysgolion uwchradd yn Ysgol Gyfun Llangefni.

Cystadleuaeth Barddoniaeth: Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth Gwyl Dewi ar gyfer Ysgolion y dalgylch. Llongyfarchiadau i Casi (bl 3) ddaeth yn 2il drwy'r dalgylch am ysgrifennu barddoniaeth ar y thema Cymru, ac i Bedwyr (bl6) ddaeth yn 2il am ysgrifennu barddoniaeth ar y thema Dewi Sant.

Telyn a Chwrth: Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 fore hyfryd yng nghwmni Huw a Bethan Roberts yn dysgu am offerynnau traddodiadol Cymru a'r wisg Gymreig, yn ogystal a chanu a dawnsio gwerin!

Sioe hanes Cymru: Dysgodd y plant am fwy o ffigyrau hanesyddol Cymru wrth wyllo'r sioe 'Tales of Wales'. Daeth y sioe i ben gyda hanes Betsi Cadwaladr a chyfle i'r plant ddysgu am ei phrofiadau yn teithio ar hyd a lled y byd yn helpu eraill mewn helyntion. Bu llawer o'r plant yn actio yn y sioe ac roedd eu mwynhad yn amlwg o'r wynebâu siriol!

Coginio: Cynhaliwyd cystadleuaeth coginio Wythnos Gwyl Dewi a bu'r cogyddion yn brysur! Cafodd Anti Sian ac Anti Aloma wledd wrth flasu a beirniadu! Da iawn bawb.

Cacennau cri: Ar ol cyfnod o goginio gyda Mrs Owen ac Anti Nia mae plant blwyddyn 1 a 2 yn feistri ar greu cacennau cri.

Dawnsio Gwerin: Dyma'r dosbarth derbyn yn dawnsio gwerin yn egniol yn eu gwisg ar gyfer diwrnod y llyfr!

Cwricwlwm Cymru:

Anthem Ysgol Henblas gyda Mei Mac: Braint i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 oedd cael treulio bore yng nghwmni'r prifardd Mei Mac ddechrau Tachwedd. Llwyddodd Mei a'r plant i greu anthem Ysgol Henblas yn seiliedig ar ein gweledigaeth 'gwreiddiau i dyfu - adenydd i hedfan'

Stiwedio Sain: Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod cofiadwy yng Nghanolfan Stiwdio Sain, Llandwrog yn dysgu am hanes sîn recordio cerddoriaeth Gymraeg. Ar ôl cinio buont yn recordio 'Ty ar y mynydd' gyda'r Welsh Whisperer – ac roedd yna forio canu! Efallai bydd rhai yn dychwelyd i recordio yno yn y dyfodol.

Eisteddfod yr Urdd: Rydym yn falch iawn o lwyddiannau pawb yn yr eisteddfod cylch Urdd gynhaliwyd ddiwedd Chwefror. Roedd pawb yn rhoi o'u gorau. Gwych iawn. Diolch i Elen ac Eirian am eu paratoi mor drylwyr.

Dydd Miwsig Cymru: Cafodd disgyblion yr adran iau fore arbennig yn Ysgol Llangefni gyda ffrindiau o'r dalgylch yn dathlu Dydd Miwsig Cymru. Diolch i Arfon Wyn am yr holl ganu a da oedd bandiau ifanc Môn yn cael y cyfle.

Cyswllt â'r gymuned:

Nos Sul cyn y Nadolig cafwyd cyngerdd gan gyn ddisgyblion, rhieni, a'n disgyblion presennol. Diolch i'r côr am ganu mor frwdfrydig ac i bawb am gefnogi. Aeth disgyblion blwyddyn 6 i gartref Rhos, Malltraeth. Roedd gwrando arnynt yn siarad mor aeddfed gyda thrigolion y cartref yn brofiad arbennig. Diolch i Ann a'r staff am y croeso. Diolch i'r Canon Emllyn Williams a'i dim arbennig o helpwyr fu'n creu 98 Christingle gyda'r plant, ac i'r plant gymerodd ran mewn gwasanaeth hyfryd yn Eglwys Cristiolus. Braint i gôr yr ysgol oedd cael cymryd rhan yng ngwasanaeth Goleuo'r Goeden yn Eglwys Sant Cyngar, Llangefni wedi ei drefnu gan Glwb Rotari Llangefni er mwyn cefnogi Hosbis Dewi Sant newydd yng Nghaergybi. Yn ogystal bu côr yr ysgol yn canu yng ngwasanaeth cylch yr Urdd ddechrau Rhagfyr.

Marchnad Cynnyrch Lleol: Fe drefnodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 farchnad cynnyrch lleol ganol mis Tachwedd. Y disgyblion fu'n gyfrifol am wahodd y cwmnïau a'r busnesau lleol yn ogystal a threfnu'r marchnata a'r raffl. Cafwyd prynhawn gwefreiddiol a llond neuadd o gwsmeriaid. Llongyfarchiadau i'r disgyblion a'r plant ar drefnu a pharatoi digwyddiad o'r fath gan wneud elw o £704.80!

Teams4U:Diolch i bawb gefnogodd ein ymgyrch Teams 4U eleni. Llwyddodd Bedwyr ac Alfie i sicrhau bod yr holl focus wedi cyrraedd Ysgol Llangedfni yn ddiogel.

Diffibriliwr:Gosodwyd adnodd hanfodol i'r gymuned tu allan i fynedfa'r ysgol ddechrau Tachwedd. Mae'r diffibriliwr bellach yn ei le ac ar gael petai ei angen mewn argyfwng.

Noson Siopa Nadolig:Cafwyd noson hyfryd yn y noson siopa Nadolig a'r ysgol yn llawn o drugareddau a chrefftau ar gyfer y Nadolig. Ac wrth gwrs roedd y dyn ei hun yno – Sion Corn yn sgwrsio a thynnu lluniau gyda'r plant. Diolch i bawb am gefnogi ac am helpu i godi £600 tuag at yr ysgol

Bake Off:Un o ddigwyddiadau pwysicaf gweithgareddau blynyddol y gymdeithas rhieni/athrawon yw'r Bake Off! Eleni eto cafwyd gwledd o fwyd a llond neuadd yn cystadlu'n y bingo. Diolch i bawb eto am gefnogi mor frwdfrydig. Gwnaethpwyd elw o £380.

Ffens newydd a phlannu tatws:Diolch i'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am gyfrannu tuag at gostau y ffens newydd o gylch yr ardd. Mae'n edrych yn wych. Bu holl plant yr ysgol yn plannu tatws efo Mike a Kirsty. Bydd cnwd da erbyn y ffair haf!

Bedydd:Braint i holl ddisgyblion yr ysgol oedd cael bod yn rhan o fedydd Anti Aloma ac Anti Pat yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth hyfryd dan arweiniad y Canon Emllyn Williams a'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan. Yn ogystal cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 brynhawn diddorol yn holi'r Canon Williams a Mrs Tracy Jones am Eglwys Sant Cristiolus.

Cylch Meithrin Henblas:Rydym wrth ein boddau fod y cylch meithrin wedi ail agor. Cafwyd bore arbennig i lansio'r cyfnod newydd pan ddaeth Hanna Huws a Selog draw i gyfarfod y plant. Dymuniadau gorau i bawb ynghlwm a'r cyfnod newydd hwn a diolch i'r pwyllgor gweithgar am sicrhau fod y cylch wedi agor eu drysau eto.

Sioe Nadolig - Pantolig

Cafwyd sioe i'w chofio gyda tri perfformiad caboledig o 'Pantolig' gyda phob plentyn yn cael y cyfle i actio a chanu. Dilynwyd hynt a helynt y postmon wrth berswadio nifer lu o wahoddedigion – o ser y jwngwl i Sinderela a'i theulu i ddod i'r parti mawr i ddathlu'r brenin newydd. Ac roedd y gwisgoedd yn werth eu gweld!

Clybiau ar ol ysgol

Clybiau amrywiol:Rydym yn ddiolchgar am yr holl glybiau sydd yn Ysgol Henblas ar ol 3:15. Mae'r clybiau Urdd, rygbi a phel droed yn mynd o nerth i nerth. Yn ychwanegol eleni bu clwb dawnsio gyda Katie Jones i'r adran iau a ffitrwydd i blant y cyfnod Sylfaen gyda Mrs Clare Owen.

Ymwelwadau ac Ymwelwyr

Teithiau

Canolfan Thomas Telford:Dysgodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 lawer am strwythurau pontydd wrth ymweld a Chanolfan Thomas Telford. Cawsont ddysgu hefyd am hanes y ddwy bont ar draws y Fenai heddiw gan ryfeddu at ddawn Thomas Telford a Robert Stephenson. Diolch i Mr Gareth Jones a Mr Gareth Hughes am y ddarpariaeth arbennig ac am helpu'r disgyblion wrth greu pontydd cryf.

Fferam y Llan:Y tymor hwn, mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn dilyn y thema 'bwyd a ffermio'. Yn ffodus iawn cawsom ymweld â Fferam y Llan – sef fferm Mari, Sara, Beca ac Elliw. Cafwyd prynhawn diddorol iawn hefo Sion y ffermwr – a Lois, a'r disgyblion yn cael gofyn amryw o gwestiynau a gwyllo'r gwartheg yn cael eu godro ar y peiriant godro newydd. Yr uchafbwynt i'r plant oedd cael gweld y llo bach. Diolch eto i Sion a Lois am brynhawn hynod ddiddorol.

Ymweliadau i'r ysgol

Andrew Southall :Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 eu hysbrydoli gan yr arlunydd lleol Andrew Southall yn ddiweddar. Roedd pawb yn gwirioni ar ei waith celf hyfryd ac yn gofyn cwestiynau priodol. Diolch iddo am ddod draw a dangos ei waith arbennig.

Gwasgu afalau:Rydym yn andros o ddiolchgar i Mike Allen am roi profiadau diddorol i'r holl blant yn yr ardd. Yn ddiweddar daeth at ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 i gynnal sesiwn gwasgu afalau. Buont yn golchi a thorri'r afalau cyn mynd ati i'w gwasgu yn y peiriant gwasgu arbennig! Llwyddwyd i greu sudd afal blasu iawn! Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr iawn.

Ymweliad tân:Mwynhaodd plant blwyddyn 1 a 2 ymweliad gan Gwawr o'r frigad dân. Dysgodd y plant am swydd Sam Tân a sut i gadw'n ddiogel yn y cartref wrth ddysgu sut i sicrhau fod y 'larwm tân yn gweithio! Cafodd y plant lawer iawn o hwyl wrth edrych ar wisg Sam Tân – a'u gwisgo. Roedd yn waith poeth gwisgo'r holl ddillad!!

Mr Wil Rowlands:Diolch i'r arlunydd Wil Rowlands am sesiwn difyr yn sôn am gelf gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Cawsom gyflwyniad difyr iawn am 'popart'ac roedd y gwaith byrffyr wedi plesio'n arw hefyd!

Mrs Bethan Jones: Ffrind arall yr ydym wrth ein boddau yn ei chroesawu i Ysgol Henblas yw Mrs Bethan Jones. Rydym yn gyfarwydd a llais Mrs Jones ar raglen Galwad Cynnar ar Radio Cymru. Fe fu plant y cyfnod Sylfaen yn dysgu am wahanol goed a phlanhigion fel rhan o'u gwaith thema ac roeddent wedi dysgu llawer.

Am restr lawn o brofiadau gweler ein gwefan ysgol:

<http://ysgolhenblas.org/newyddion.html>

Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mrs Manon Roberts yw cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/2020 bu'r holl staff yn cyfrannu i'r gefnogaeth sydd ar bob disgybl ei angen. Mae'r cynorthwyr dosbarth yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Rydym yn parhau i weithredu cynllun Tric a Chlic, Safmeds, Dyfal Donc a Talkabout fel ymyrraethau i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

Cyfleoedd Cyfartal

Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchiwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

Polisiau

Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisiau'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda Mr Jones.

Iechyd a Diogelwch

Diogelir y dysgwyr allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.

Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

Toiledau

Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl.

Ysgolion y dalgyllch

Mae perthynas glos yn bodoli rhwng holl ysgolion y dalgyllch a'r staff yn cyfrannu at weithgorau amrywiol i ddatblygu clwstwr Cefni. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant i staff holl ysgolion y clwstwr ym mis Tachwedd 2019 a oedd yn canolbwyntio ar y datblygiadau diweddaraf o ran y safonau proffesiynol.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Fe wnaeth disgyblion hynaf yr ysgol gyswllt gyda phennaeth ysgol yn Dehli fel rhan o thema India. Mae gennym gysylltiad gyda phentref yn Lesotho sef Hafan Henblas, ac mae'r ysgol yn cefnogi ymgyrch Mr a Mrs Rhys Pritchard yn Kenya o sicrhau pistyll dwr i'r trigolion lleol.

Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Mae'r Cynllun Brecwast a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn mynd o nerth i nerth ac yn llawn o ran niferoedd. Pwrpas y cynllun yw rhoi brecwast i rai na fyddai yn cael hynny gartref.

Pwyllgorau yr ysgol (2019- 2020)

Mae llais y plentyn yn bwysig iawn yn yr ysgol a bu'r pwyllgorau canlynol yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn:-

Cyngor yr Ysgol

Pwyllgor Eco

Pwyllgor Ysgol Iach

Siarter Iaith

Grwp Bike It

6. PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19 nid oedd adrodd yn ol ar niferoedd presenoldeb am y flwyddyn gyfredol.

7. CRYNODEB O'R ADRODDIAD ARIANNOL

Er gwaetha'r sialensau amrywiol a wynebwyd, fe lwyddodd yr ysgol i sicrhau ei bod yn aros yn y du yn ariannol, ac erbyn diwedd Mawrth 2020 roedd ganddi gronfa wrth gefn o £40,344. Bydd y swm yma yn help i'n diogelu rhag heriau ariannol yn y dyfodol, a byddwn hefyd yn defnyddio rhan o'r swm i fuddsoddi yn addysg y disgyblion.

Mae disgwyl i'r cyfanswm sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf ym mis Mawrth 2020 aros yn debyg i hyn, a byddwn yn parhau i fonitro cyllid yr ysgol yn ofalus er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol.